



ADRODDIAD YR ARHOLWR

**LEFEL 2
IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL:
EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

IONAWR 2020

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:
<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy>

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

Lefel 2

Ionawr 2020

UNED 1: HYBU IECHYD A LLESIANT DRWY GYDOL CAMAU BYWYD

Sylwadau Cyffredinol

Mae'n braf dweud bod addysgu'r fanyleb newydd hon mewn amser byr wedi paratoi'r ymgeiswyr yn dda ar gyfer yr arholiad cyntaf hwn. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd yr ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar bob cwestiwn. Roedd gwybodaeth yr ymgeiswyr am y meysydd yr ymdriniwyd â nhw yn y cwestiynau i'w gweld yn dangos dealltwriaeth gyffredinol dda.

Cwblhaodd pob ymgeisydd y papur, gan awgrymu nad oedd rheoli amser yn broblem yn ystod yr arholiad.

Roedd rhai ymgeiswyr wedi camddarllen cwestiynau a byddai rhai ymgeiswyr wedi elwa o ganolbwyntio mwy ar y geiriau gorchymyn ar ddechrau pob cwestiwn.

Argymhellir bod ymgeiswyr yn ail-ddarllen ac yn gwirio eu hymatebion, os bydd amser yn caniatáu.

Yn y cwestiynau atebion hir, dangosodd yr ymgeiswyr broses feddwl glir yn eu dull o strwythuro eu hymatebion. Defnyddiwyd system mnemonig i gefnogi galw i gof – er enghraifft, gyda hunangysyniad – yn gyffredinol, manteisiodd yr ymgeiswyr ar y cymorth cof hwn.

Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr yn cynnig ymatebion wedi'u datblygu i'r holl gwestiynau a oedd yn gofyn am fwy na nodi neu roi datganiad. Prin iawn oedd yr atebion un gair neu frawddegau byr, gan awgrymu bod ymgeiswyr yn ymgysylltu â'r cwestiynau.

Roedd gwybodaeth yr ymgeiswyr am y fanyleb yn dda; roedd gwybodaeth yr ymgeiswyr am y meysydd cynnwys yr ymdriniwyd â nhw yn y cwestiynau i'w gweld yn dangos dealltwriaeth gyffredinol dda. Roedd gallu'r ymgeiswyr i gymhwyso gwybodaeth i'r sefyllfaoedd penodol a osodwyd yn y senarios yn amrywio, yn dibynnu ar y senario. Mae'n rhaid ymarfer cymhwyso gwybodaeth mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau.

Roedd sillafu a gramadeg da a llawysgrifen ddarllenadwy yn cael eu harddangos gan fwyaf yr ymgeiswyr.

Gwneir pob ymdrech i ddarparu digon o le i ymgeiswyr ysgrifennu eu hymatebion i bob cwestiwn. Fodd bynnag, os bydd angen i ymgeiswyr ddefnyddio'r tudalennau parhad, rhaid labelu eu hatebion yn glir gyda'r rhif cwestiwn llawn.

Sylwadau ar gwestiynau unigol

Cw.1 (i), (ii), (iii), (iv)

Nodwyd y camau bywyd cywir gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr; fodd bynnag, methodd rhai ymgeiswyr â nodi dibynnu mwy ar eraill fel agwedd ar oedolaeth ddiweddarach – tystiolaeth o gamddarllen y cwestiwn o bosibl.

Cw.2 (a) (i), (ii)

Diffiniwyd sgiliau echddygol manwl a bras yn gywir gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr, gan gysylltu â chydymud a datblygiad cyhyrau bach a mawr.

(b) (i), (ii)

Ymhlith yr enghreifftiau poblogaidd o sgiliau echddygol manwl y disgwylir iddynt gael eu harddangos yn ystod plentyndod roedd peintio bys, lliwio a dal cylllyll a ffyr. Dylai lluniadu ac ysgrifennu awgrymu bod rheolaeth o'r pensil.

(c) Cynhyrchodd yr ymgeiswyr amrywiaeth o atebion ar gyfer sut mae fframiau dringo yn cefnogi datblygiad corfforol. Roedd atebion a enillodd farciau llawn yn cysylltu'r gweithredoedd, fel siglo, ymestyn a neidio i ffwrdd â datblygu sgiliau echddygol bras

Cw.3 (a) Roedd y cwestiwn hwn yn ymddangos yn heriol i ymgeiswyr, gyda marciau cyfyngedig yn cael eu dyfarnu am ddiffinio hunan-barch. (Gweler maes testun 1.3 y fanyleb.)

(b) Rhoddwyd marciau am ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol yn unig. Roedd rhywfaint o dystiolaeth o ymatebion cyfyngedig ac ailadroddus. Nid roddir marciau am atebion amwys. Roedd rhai ymatebion yn gyfyngedig ac yn cyfeirio at ddatblygiad cymdeithasol *neu* emosiynol yn unig.

Cw.4 Gwelwyd amrywiaeth dda o ymatebion ar gyfer y cwestiwn hwn

(a) (i), (ii)

Roedd gofyn i'r ymgeiswyr esbonio effeithiau cadarnhaol a negyddol amgylchedd y cartref er mwyn ennill marciau yn y band uchaf.

(b) (i), (ii)

Roedd dealltwriaeth o'r term 'gwydnwch' (*'resilience'*) yn heriol i rai ymgeiswyr a oedd yn ei ddrysu â 'gwrthiant' (*'resistance'*).

Cw.5 (a), (b (i), (ii), (iii)), (c)

Gwelwyd tystiolaeth o ddealltwriaeth dda o'r term PNPau (Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod), gyda'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu rhoi tair enghraifft ac egluro'n fanwl sut y gallai PNPau (Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod) effeithio ar fod yn oedolaeth.

Cw.6 Er bod y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o fod yn ofalwr a manteision mynychu canolfan ddydd, dim ond y rhai a oedd wedi darllen y cwestiwn yn ofalus a oedd yn gallu ennill marciau llawn.

(a) Roedd yn ofynnol i ymgeiswyr restru effeithiau bod yn ofalwr ar Jack.

(b) Roedd gofyn i'r ymgeiswyr drafod y manteision i Ffion o fynychu canolfan ddydd.

(c) Roedd y rhan hon o'r cwestiwn yn ymddangos yn heriol i ymgeiswyr, gyda marciau cyfyngedig yn cael eu dyfarnu. Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ymgyrchoedd llesiant cyfredol yn rhan bwysig o'r uned hon.

Cw.7 Gwelwyd amrywiaeth o ymatebion ar gyfer y cwestiwn hwn.

- (a) Roedd hyn yn gofyn am nodi a disgrifio tri *cyfnod* chwarae; ni roddwyd marciau am *fathau* o chwarae.
- (b) Cafodd pwysigrwydd chwarae ar gyfer datblygiad deallusol a chymdeithasol plentyn ei ateb yn dda gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr, er bod rhai ymatebion yn eithaf ailadroddus. Enillwyd marciau yn y band uwch drwy roi trafodaeth o ansawdd da a oedd yn mynd i'r afael yn benodol â datblygiad deallusol a chymdeithasol.

Cw.8 Gwelwyd amrywiaeth o ymatebion ar gyfer y cwestiwn hwn. Unwaith eto, mae ymgyrchoedd cyfredol, fel y nodir yn y fanyleb, yn faes dysgu pwysig.

- (a) (i), (ii)
Roedd hyn yn gofyn am *nod*i dau o wasanaethau yn yr ymgyrch *Sgrinio am Oes*.
- (b) Roedd hyn yn gofyn am *esboniad* o bwrpas a manteision gwasanaethau sgrinio yng Nghymru.
- (c) Roedd hyn yn gofyn am *werthusiad* o'r defnydd o bosteri ar gyfer hyrwyddo gwasanaethau sgrinio yng Nghymru, sy'n golygu y dylai ymgeiswyr bwysu a mesur y dystiolaeth, llunio barn a dod i gasgliad; dim ond trwy wneud hyn y gallant ennill marciau yn y bandiau uwch.

Rhaid i ymgeiswyr ddeall pwysigrwydd y geiriau gorchymyn a ddefnyddir yn y cwestiynau. Os yw'r ateb mewn fformat pwynt bwled neu restr pan fo'r cwestiwn yn gofyn am, er enghraifft, esboniad neu drafodaeth, ni all yr ymgeisydd ennill marciau yn y band uwch felly ni ddylid annog y mathau hyn o atebion.

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol

- Roedd perfformiad yr ymgeiswyr ar bapur cyntaf y fanyleb newydd hon yn ddymunol ar y cyfan, gan ddangos bod yr athrawon wedi paratoi eu hymgeiswyr yn dda ar gyfer yr arholiad.
- Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr yn deall cyd-destun y cwestiynau.
- Enillodd yr ymgeiswyr lai o farciau os wnaethant lunio rhestri yn hytrach na rhoi atebion mwy manwl.
- Nid oedd unrhyw dystiolaeth o gyfyngiadau amser.
- Dylid annog ymgeiswyr i ddarllen y cwestiynau'n ofalus ac i brawfddarllen eu hatebion.
- Mae hyrwyddo ac ymgyrchoedd iechyd a llesiant presennol yn faes pwysig y dylid mynd i'r afael ag ef wrth ddysgu yn y dyfodol. (Gweler maes testun 1.4 y fanyleb.)

- Gwneir pob ymdrech i ddarparu digon o le i ymgeiswyr ysgrifennu eu hymatebion i bob cwestiwn. Mewn cyfresi yn y dyfodol, dylid atgoffa ymgeiswyr i nodi rhif y cwestiwn a'r isadran yn glir pan fydd atebion yn parhau ar dudalennau parhad.
- Mae deunyddiau asesu enghreifftiol ar gael ar wefan CBAC i ymgeiswyr weld sut mae cwestiynau'n cael eu geirio. Mae adnoddau ar-lein CBAC, gan gynnwys technegau adolygu, hefyd yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol ac, am arweiniad pellach, mae deunyddiau DPP ar gael ar wefan ddiogel CBAC.



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk